Adroddiad ar

Ysgol Y Ferch O'r Sger

Greenfield Terrace
North Corneily
CF33 4LW

Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Y Ferch O'r Sger

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Y Ferch O'r Sger |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 131 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 94 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 25.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 10.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 10.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 24/06/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 04/03/2019 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 19/05/2025 |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunan, y staff a'r disgyblion. Mae'n annog disgyblion i fod yn falch o'u Cymreictod ac i siarad Cymraeg ar bob adeg posibl. Mae gwella dysgu a lles disgyblion yn bwysig iawn i'r pennaeth a'r staff.

Mae athrawon ac oedolion eraill yn gofalu'n dda am y disgyblion ac yn eu trin yn deg a gyda pharch. Maent yn gwneud yr ysgol yn fan diogel a chartrefol i ddisgyblion ac yn sicrhau bod bron bob un yn hapus ac yn ymddwyn yn dda yno. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn paratoi tasgau priodol er mwyn iddynt wneud cynnydd da. Maent yn darparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion sy'n dal eu dychymyg, yn eu haddysgu am eu hardal leol, ac yn eu helpu i fwynhau dysgu. Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er bod athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r medrau hyn mewn gwahanol ffyrdd, nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt ysgrifennu darnau hir o destun nac i ymarfer eu medrau rhifedd mewn tasgau diddorol 'go iawn'.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella yn dda. Er hyn, nid yw'r prif flaenoriaethau presennol yn ddigon clir, nac yn seiliedig ar gynnydd neu les disgyblion. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr fesur cynnydd yn eu herbyn.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus â'r Cylch Meithrin lleol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym yn yr ysgol wrth ddechrau yn y dosbarth meithrin. Mae hefyd bartneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd Gymraeg lleol sy'n paratoi disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dda ar gyfer symud yno pan ddaw'r amser.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod y prif flaenoriaethau gwella yn glir ac yn hawdd i werthuso'u heffaith ar gynnydd neu les disgyblion

A2. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol a phwrpasol i ysgrifennu'n estynedig

A3. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog

## Beth sy'n digwydd nesaf

### Dim mewn gweithgarwch dilynol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y staff, y disgyblion a hi ei hun. Mae’n datblygu diwylliant cynhwysol a chyfeiriad strategol effeithiol sy’n hyrwyddo’r Gymraeg yn gadarn ac yn canolbwyntio’n dda ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae’n cymryd camau priodol i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel addysgeg, asesu, a dulliau i leihau effaith tlodi ar gynnydd disgyblion. Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar yr egwyddor o *Faethu, Ysbrydoli a Dyheu,* sy’n annog disgyblion i wneud eu gorau glas. Mae diwylliant cadarn o ddiogelu yn bodoli yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio tasgau diddorol i ddisgyblion sy’n eu hannog i fwynhau dysgu. Maent yn cyflwyno gweithgareddau sy’n ennyn eu diddordeb, yn datblygu’r dysgu ar gyflymder addas, ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn cynllunio’n fwriadus i roi cyfleoedd eang i ddisgyblion ddefnyddio’r medrau hyn mewn gwahanol gyd-destunau. Er hyn, prin yw’r cyfleoedd a roddant i ddisgyblion ysgrifennu’n estynedig, nac i gymhwyso’u medrau rhifedd mewn tasgau cyfoethog ar draws y cwricwlwm.

Mae'r berthynas waith hynod gynhaliol sy’n bodoli rhwng disgyblion, athrawon, cynorthwywyr a staff gweinyddol yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae athrawon yn asesu a gwerthuso cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn olrhain eu datblygiad yn bwrpasol. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gynnydd disgyblion sy’n eu galluogi i’w cefnogi’n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau dysgu annibynnol priodol. Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith ac i gyfrannu syniadau at yr hyn maent am ei ddysgu. Mae *Gwener Gwenu,* er enghraifft, yn galluogi’r disgyblion i fyfyrio ar, a gwerthuso eu dysgu dros yr wythnos a aeth heibio a dylanwadu ar beth a sut byddant am ei ddysgu yn ystod yr wythnos ganlynol.

Mae staff wedi llwyddo i ymgorffori prif egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn gadarn yn eu cynlluniau. Maent yn cynnig ystod o brofiadau dysgu diddorol i sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ynghyd ag ymwybyddiaeth gadarn o elfennau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae’r tasgau yn aml yn ystyried y cyd-destun lleol yn dda ac yn cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i lwyddo yn eu tasgau. Un o brif rinweddau’r cwricwlwm yw’r *Prosiect Cynefin,* sy’n seiliedig ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hardal leol.

### Ciplun – Datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol

Yr hyn sy'n nodweddiadol am y Prosiect Cynefin, sy'n seiliedig ar gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol, eu treftadaeth a'u diwylliant, yw ei fod yn cychwyn gyda'r disgybl ei hun. Mae disgyblion yn ystyried eu profiadau eu hunain mewn perthynas â thema neu faes dysgu penodol. Yna bydd yn ehangu i ystyried gwahaniaethau rhwng unigolion yn y dosbarth, yr ysgol, y gymuned leol a Chymr,u cyn dysgu am ddiwylliannau'r byd ehangach.

Mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n gadarn a chyflym, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith gan drafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed. Mae agwedd gadarnhaol y disgyblion at yr iaith Gymraeg yn nodedig ac mae'r cynnydd cyflym a wnânt o'u man cychwyn yn arbennig o dda.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'n rheolaidd yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai y mae tlodi yn cael effaith arnynt, yn uchel.

Trwy fapio darpariaeth yn fanwl, a defnyddio cod graddoli a system effeithiol i fonitro cynnydd, mae staff yn adnabod anghenion disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, yn gynnar. Mae hyn yn eu galluogi i gydlynu cymorth addas ar gyfer yr unigolion hyn, ac i ddarparu'r gefnogaeth briodol iddynt, gan gydweithio ag asiantaethau allanol lle bo'n briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae tlodi yn cael effaith arnynt a'r rhai sydd ag ADY, yn hapus yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon ac oedolion eraill yn ofalgar iawn o ddisgyblion ac yn eu trin yn deg a gyda pharch. Trwy ddefnyddio strategaethau fel *Llecyn Lles* a'r *Twb Teimladau*, mae disgyblion yn barod iawn i rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda staff yn amserol. Mae gan athrawon ac oedolion eraill ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith bod ymddygiad bron bob un disgybl yn arbennig o dda ar draws yr ysgol. Maent hefyd yn cofnodi, adrodd ac yn ymateb yn briodol i unrhyw honiadau o fwlio ac aflonyddu.

Mae pwyllgorau llais y disgybl yn darparu cyfleoedd achlysurol iddynt ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau ac i gynnig ambell syniad am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Maent, er enghraifft, wedi gweithredu ar eu syniad o addysgu gemau buarth trwy gyfrwng y Gymraeg i'w cyfoedion mewn ysgol cyfrwng Saesneg leol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn gyfle iddynt ymfalchïo yn eu Cymreictod. Er bod disgyblion yn datblygu amrywiol fedrau arwain trwy wneud hyn, nid yw gwaith y pwyllgorau wedi ei wreiddio'n llawn er mwyn eu galluogi i ddylanwadu'n annibynnol ac aeddfed ar elfennau o fywyd yr ysgol.

Mae cyswllt cryf yn bodoli rhwng y sefydliad cyn-feithrin sy’n bwydo’r ysgol a’r dosbarth meithrin. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth bontio yn y dysgu sylfaen ac yn gymorth i ddisgyblion ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol. Ar frig yr ysgol, trefnir nifer o ddiwrnodau pontio gyda’r ysgol uwchradd leol i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 sy’n eu paratoi’n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae’r gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gynhwysfawr ac yn galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, yn sgil canfod heriau gydag addysgu a chynnydd disgyblion, maent, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi ail-drefnu dosbarthiadau a chynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol i staff i wella’r sefyllfa. Mae hyn wedi arfogi pob aelod staff i gyflawni eu rolau’n fwy effeithiol ac mae wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar safonau’r addysgu, y dysgu a lles disgyblion mewn amser byr iawn. Mae blaenoriaethau gwella cyfredol yr ysgol, fodd bynnag, yn rhy eang, yn lled aneglur ac nid ydynt wedi eu seilio digon ar gynnydd neu les disgyblion. O ganlyniad, mae’n anodd i arweinwyr fesur cynnydd penodol yn eu herbyn.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau fel cyfeillion beirniadol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth glir o’r hyn mae’r ysgol yn ei wneud yn dda a’r materion sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio adnoddau’r ysgol yn briodol i sicrhau bod yr addysgu, y dysgu a lles disgyblion yn gadarn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er hyn, maent yn cydweithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol i leihau diffyg ariannol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 20XX: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2025